# Nodiadau ar gyfer ailymuno â'r brif adran (talu cyfraniadau CPLlL ar y gyfradd lawn)

**Darllenwch y nodiadau canllaw hyn yn ofalus cyn llenwi'r ffurflen.**

Llenwch y ffurflen hon os hoffech **roi'r gorau i** gyfrannu at adran 50:50 y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol ac yn dymuno ailymuno â phrif adran y CPLlL. Pan fydd y ffurflen wedi cael ei phrosesu gan adran gyflogau eich cyflogwr, fe fyddwch chi'n dechrau cronni buddion pensiwn llawn yn y brif adran o'r cyfnod tâl nesaf sydd ar gael. Er mwyn bwrw ymlaen â'ch dewis, bydd yn rhaid i chi lenwi'r ffurflen hon a'i **dychwelyd i'ch cyflogwr.**

## Sut mae'r brif adran yn gweithio?

Mae dwy adran yn y CPLlL. Maent yn cael eu galw yn brif adran a'r adran 50:50. Yn y brif adran, rydych yn talu cyfraniadau llawn ac rydych yn cronni eich pensiwn ar y gyfradd lawn. Yn yr adran 50:50, rydych yn dewis talu hanner eich cyfraniadau llawn ac rydych yn cronni hanner eich pensiwn llawn yn ystod y cyfnod hwn. Os ydych yn ymuno â'r adran 50:50, bydd gennych chi'r un yswiriant marw yn y swydd ac yswiriant salwch ag aelod sy'n talu cyfraniadau pensiwn ar gyfradd lawn yn y brif adran.

Gallwch ddewis symud o'r adran 50:50 i'r brif adran ar unrhyw adeg. Er mwyn ailymuno â'r brif adran, mae'n rhaid i chi wneud cais ysgrifenedig i'ch cyflogwr. Gallwch ddefnyddio'r ffurflen hon i wneud eich dewis. Byddwch yn cael eich symud i'r brif adran o'r cyfnod tâl nesaf posibl wedi i'ch cyflogwr dderbyn eich ffurflen wedi ei llofnodi.

Os oes gennych chi fwy nag un swydd lle rydych yn cyfrannu at yr adran 50:50, gallwch ddewis ailymuno â'r brif adran yn un o'r swyddi, yn rhai o'r swyddi, neu ym mhob un o'r swyddi. Os ydych chi yn y CPLlL gyda mwy nag un cyflogwr, mae'n rhaid llenwi ffurflen ar wahân a'i dychwelyd i bob cyflogwr os hoffech chi ailymuno â'r brif adran.

## Pa mor hir allaf i aros yn y brif adran?

Gallwch aros yn y brif adran cyhyd ag y byddwch mewn swydd sy'n eich gwneud yn gymwys i fod yn aelod o'r CPLlL a'ch bod o dan 75 oed.

Ar unrhyw adeg tra rydym yn y brif adran, mae gennych hawl i ddewis symud yn ôl i adran 50:50 y CPLlL. Byddai angen i chi lenwi **ffurflen i ymuno â'r adran 50:50** a'i rhoi i'ch cyflogwr i symud yn ôl i'r adran 50:50. Byddech yn dychwelyd i'r adran 50:50 o'r cyfnod talu nesaf sydd ar gael ar ôl i'ch cyflogwr dderbyn y ffurflen wedi'i llenwi. Byddech wedyn yn dechrau talu hanner eich cyfraniadau llawn a chronni hanner eich pensiwn llawn yn ystod y cyfnod yr ydych yn yr adran honno.

# Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol
# Ailymuno â'r brif adran (talu cyfraniadau CPLlL ar y gyfradd lawn)

**Manylion yr Aelod:**

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Enw llawn:** | | | |
| **Rhif YG:** | | **Dyddiad geni:** | |
| **Cyfeiriad:** | | | |
| | | **Cod post:** | |
| **Cyfeiriad e-bost:** | | **Rhif Ffôn:** | |

**Dewis Iaith:** Dymunaf dderbyn **POB** gohebiaeth yn y dyfodol yn (rhowch ✓ yn y blwch perthnasol i chi i ddangos eich dewis)

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cymraeg** | ☐ | **Saesneg** | ☐ | **Dwyieithog** | ☐ |

**Dewis o ran Cyfathrebu:** Dymunaf dderbyn **POB** gohebiaeth yn y dyfodol yn (rhowch ✓ yn y blwch perthnasol i chi i ddangos eich dewis) **(Dewiswch UN opsiwn yn unig)**

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Electronig**<br>*Sicrhewch eich bod wedi cofrestru i ddefnyddio'r Hunanwasanaeth Aelodau i dderbyn gohebiaeth yn electronig: **https://mss.clwydpensionfund.org.uk** | ☐ | **Papur** | ☐ |

**Manylion eich cyflogaeth:** (Cadarnhewch fanylion y swydd yr hoffech ddychwelyd i'r brif adran ar ei chyfer. Os hoffech ddychwelyd i'r brif adran mewn mwy nag un swydd, bydd angen i chi lenwi ffurflen ar wahân i bob swydd).

| | |
|---|---|
| **Cyflogwr:** | |
| **Teitl y Swydd:** | |
| **Cyfeirnod cyflog:** | |
| **Cyfeirnod swydd (A, B, C ac ati):** | |

**Datganiad:**

Rwy'n dymuno symud o'r adran 50:50 i brif adran y CPLlL yn y swydd a nodir uchod. Rwy'n deall y byddaf yn rhoi'r gorau i dalu hanner fy nghyfradd gyfrannu yn y swydd hon ac y bydd fy nghyfradd gyfrannu yn dychwelyd i'r gyfradd lawn o'r cyfnod talu nesaf sydd ar gael. Byddaf wedyn yn dechrau cronni buddion llawn ym mhrif adran y CPLlL o ddyddiad dechrau'r cyfnod talu nesaf sydd ar gael. Rwy'n gwybod y gallaf, ar unrhyw adeg tra rwyf yn dal i dalu cyfraniadau CPLlL, ddychwelyd i adran 50:50 y CPLlL trwy gadarnhau hynny'n ysgrifenedig wrth fy nghyflogwr.

**Byddaf yn dychwelyd y ffurflen hon i fy nghyflogwr.**

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Llofnod:** | | **Dyddiad:** | |